YSGOL GYMRAEG CASTELL-NEDD

Pennaeth: Mr D.T. Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
Ffôn: 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
e-bost: castellnedd.gyn@npt.gov.uk
pennaeth.castellnedd.gyn@npt.gov.uk

Mai 9fed, 2009.

Annwyl rieni,

1. Mae'n fwriad gennym i newid ein trefniadau 'Clybiau ar ôl ysgol' ar brynhawn Mawrth, Mercher ac Iau i ddisgyblion Blynyddoedd 3-6. O hyn 'mlaen ni fydd yr ysgol yn ffonio unrhyw riant er mwyn dweud wrthynt fod unrhyw glwb wedi ei 'ganslo', beth bynnag yw'r tywydd. Ni ddisgwylir chwaith i unrhyw riant i ffonio'r ysgol am wybodaeth ynglŷn â p'un ai ydy'r clwb yn mynd yn ei flaen y prynhawn hwnnw, neu beidio. Hyd yn oed os oes rhaid canslo clybiau penodol, am unrhyw reswm, fe fydd y staff sy'n gyfrifol am y clybiau hynny yn gwneud trefniadau i ddarparu gweithgareddau eraill ar gyfer eich plant, ac felly'n sicrhau eu bod yn aros yn yr ysgol tan 4.30 y.p. Rwy'n hyderus y bydd y newidiadau uchod yn arwain at well ddealltwriaeth rhwng yr ysgol a rhieni ar 'brynhawniau clybiau'.
2. Hoffwn longyfarch dau o ddisgyblion Blwyddyn 6, sef Hollie Owen a Phoenix Williams am ennill y wobr gyntaf a'r ail wobr yng Nghystadleuaeth Barddoniaeth Saesneg Diwrnod y Llyfr, a drefnwyd gan Lyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot. Dai awn, chi'ch dau!
3. Llongyfarchiadau hefyd i Mr. Paul Davies, tad Sophie ac Olivia (dosbarth Derbyn), a lwyddodd i gwblhau Marathon Llundain mewn 3 awr a 31 munud. Diolchwn iddo am ei ddymuniad i godi arian at yr ysgol, a gofynnwn yn gardeig i'r rheiny sy'n bwriadu ei noddi, i anfon yr arian i'r ysgol erbyn Dydd Mercher, Mai 20fed fan pellaf. Diolch.
4. Cynhelir Wythnos Asesu i holl ddisgyblion Blwyddyn 2-6 o Ddydd Llun, Mai 11eg.
5. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen llawer o hwyl gyda chriw Bws Cyw S4C Dydd Gwener diwethaf. Fe fydd y raglen yn cael ei darlledu ar fore Dydd Gwener, Mai 25ain (Hanner Tymor) o 7.00 y bore ymlaen. Fideos neu Sky Plus amdani!
6. Nawr bod cegin newydd sbon gyda ni ar safle'r ysgol, rŷn ni'n awyddus iawn bod mwy a mwy o blant yn dewis cinio ysgol. Credwch fi……..mae'r bwyd yn 'lyfli'!! Rwy'n amgau'r fwydlen ar eich cyfer……er ni ellir gwarantu y bydd ein cogyddes yn cadw'n union at drefn y fwydlen. Hoffwn atgoffa rhieni i dalu arian cinio ar **Ddydd Llun** yn wythnosol os gwelwch yn dda.